

HYSBYSIAD APÊL - apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Awdurdod Bilio (cyngor lleol)

PWYSIG: GOFYNNIR I CHI DDARLEN YR ADRAN HON CYN CWBLHAU'R FFURFLEN HON

Mae nifer o benderfyniadau y gall Awdurdod Bilio (cyngor lleol) eu gwneud ynglŷn â'ch treth gyngor neu ardrethi busnes y gallwch apelio i'r Tribiwnlys Prisio (TP) amdanynt, os ydych yn anghytuno â nhw. Cewch apelio:

- Os ydych yn credu bod faint o dreth gyngor y mae eich cyngor yn ei chodi arnoch yn anghywir, neu na ddylid codi arnoch chi o gwbl; neu
- Os yw'r cyngor wedi anfon Hysbysiad Cwblhau atoch yn dweud y gall eiddo sy newydd ei adeiladu gael ei orffen mewn tri mis neu lai (*ac wedi hynny bydd treth gyngor neu ardrethi yn ddyledus*), ac nad ydych yn cytuno y gall gael ei gwblhau o fewn yr amser yna; neu
- Os yw'r cyngor wedi anfon Hysbysiad Cosb atoch achos eu bod yn credu nad ydych wedi darparu gwybodaeth maen nhw wedi gofyn amdani mewn cysylltiad â'ch treth gyngor neu ardrethi, ac yr ydych yn credu bod gosod cosb arnoch yn anghywir.

Ym mhob un o'r achosion uchod, os ydych yn mynd i apelio, rhaid i chi wneud hynny o fewn cyfnodau penodol o amser. Yn achos apêl Hysbysiad Cwblhau, mae gennych **bedair wythnos** o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad i gofrestru eich apêl gyda ni. Yn achos apêl Hysbysiad Cosb rhaid i chi gofrestru eich apêl o fewn **dau fis**. Mewn achosion lle rydych yn credu bod y bil yn anghywir am ryw reswm, rhaid i chi ysgrifennu at y cyngor yn y lle cyntaf yn nodi eich pryderon cyn cysylltu â ni. Mae gan y cyngor ddau fis i ymateb. Os ydynt yn gwrthod eich cais, rhaid i chi apelio atom o fewn **dau fis** i'r gwrthodiad hwnnw. Os nad yw'r cyngor yn ymateb o gwbl, fe gewch gofrestru apêl gyda ni *o fewn pedwar mis i ysgrifennu at y cyngor yn y lle cyntaf*.

GALL apelau hwyr gael eu derbyn gan Lywydd y Tribiwnlys, ond mewn achosion lle dangosir yn glir fod yr oedi wrth wneud yr apêl wedi codi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y ceisydd yn unig. Rhaid rhoi'r rhesymau am gyflwyno'r apêl yn hwyr ar y ffurflen ac mae penderfyniad y Llywydd i dderbyn apêl hwyr neu beidio yn derfynol.

Gellir dod o hyd i ganllawiau sy'n ymdrin â'r wybodaeth sydd ei hangen ar adran benodol yn y ffurflen hon ar ddiwedd y ddogfen hon.

A ydych yn apelio achos eich bod yn credu bod eich bil yn anghywir?

Os "Ydw"
cwblhewch Adrannau A a B

A yw eich apêl yn ymwneud â Hysbysiad Cwblhau yr ydych wedi'i dderbyn?

Os "Ydy"
cwblhewch Adrannau A ac C

A yw eich apêl yn ymwneud â Hysbysiad Cosb yr ydych wedi'i dderbyn gan yr Awdurdod Bilio?

Os "Ydy"
cwblhewch Adrannau A ac CH

A ydych yn gwneud apêl hwyr?
(h.y. y tu allan i'r terfynau amser sy'n cael eu disgrifio uchod)

Os "Ydw"
cwblhewch Adran D

Adran A – Manylion Personol

Rhowch eich manylion i mewn isod - **DS** Os ydych yn cwblhau'r adran hon ar ran rhywun arall, ysgrifennwch eu manylion yn y blwch isod, os gwelwch yn dda.

Enw Llawn	
Cyfeiriad eiddo'r apêl:	
Manylion Cyswllt	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn.:	
Cyfeiriad Ebst:	

Enw Cyswllt y Cynrychiolydd: <i>(Os yn berthnasol)</i>	
Manylion Cyswllt y Cynrychiolydd	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn:	
Cyfeiriad Ebst:	

A ydych yn rhoi eich awdurdod i'r person a enwir uchod weithredu ar eich rhan ynglŷn â'r apêl hon?

Ydw	Nac Ydw

Sut byddai'n well gennych chi neu'ch cynrychiolydd i ni gysylltu â chi?

	Chi	Cynrychiolydd
Post:		
Ffôn:		
Ebst:		

Adran B – Apêl Bilio Treth Gyngor

Enw'r Cyngor	
Y dyddiad yr ysgrifennoch chi at y Cyngor yn codi anghydfod am eich bil Treth Gyngor	
A ysgrifennodd y Cyngor yn ôl atoch yn gwrthod eich cais?	
Os ysgrifennon nhw yn ôl atoch, beth oedd dyddiad y llythyr? [Os oes modd, dylid amgáu copi o'r llythyr]	
Cyfeirnod Treth Gyngor/bil	

[D.S. Gall y Cyngor ostwng biliau Treth Gyngor i bobl sydd ag incwm isel a/neu yn derbyn rhai taliadau lles. Os ydy eich apêl yn ymwneud â'r math yma o ostyngiad, atebwch y cwestiwn canlynol. -- Os nac ydy, gadewch y cwestiwn hwn yn wag.]

Os yw eich apêl yn ymwneud â gostyngiad y mae, neu nad yw, y Cyngor wedi'i osod oherwydd incwm isel, ydych chi wedi gwneud apêl Budd-dal Tai hefyd?	
---	--

[D.S. Os ydych chi wedi gwneud apêl Budd-dal Tai, gofynnir i chi gynnwys copi o'r dogfennau a gyflwynwyd i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.]

Defnyddiwch y blwch isod i esbonio eich rhesymau am apelio, os gwelwch yn dda

--

[DS - Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno y tu allan i'r terfynau amser a nodwyd rhaid i chi gwblhau Adran D hefyd i ofyn am estyniad i derfynau amser yr apêl.]

Adran C – Apêl yn erbyn Hysbysiad Cwblhau

Enw'r Cyngor	
Dyddiad cyflwyno'r Hysbysiad Cwblhau	
Ai chi yw perchennog yr eiddo y cyfeirir ato yn yr Hysbysiad Cwblhau?	

[DS rhaid cyflwyno copi o'r hysbysiad cwblhau gyda'r ffurflen apêl wedi'i llenwi. Bydd methu â chyflwyno hwn yn esgor ar oedi wrth gofrestru eich apêl.]

Ar ba seiliau ydych chi'n gwneud yr apêl hon? (Marsiwch y blwch perthnasol, os gwelwch yn dda.)

<input type="checkbox"/>	Ni chwblhawyd yr adeilad erbyn y dyddiad a nodwyd yn yr Hysbysiad Cwblhau
<input type="checkbox"/>	Nid oes modd cwblhau'r adeilad yn rhesymol erbyn y dyddiad a nodir yn yr Hysbysiad Cwblhau

Gofynnir i chi ddefnyddio'r blwch isod i esbonio eich rhesymau am apelio

[DS - Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno y tu allan i'r terfyn amser 4 wythnos rhaid i chi gwblhau Adran D hefyd i ofyn am estyniad i derfynau amser yr apêl.]

Adran CH – Apêl yn erbyn Hysbysiad Cosb a gyflwynwyd gan Awdurdod Bilio

Enw'r Cyngor	
Dyddiad cyflwyno'r Hysbysiad Cosb	

[DS rhaid cyflwyno copi o'r hysbysiad cosb gyda'r ffurflen apêl wedi'i llenwi. Bydd methu â chyflwyno hwn yn esgor ar oedi wrth gofrestru eich apêl.]

Gofynnir i chi ddefnyddio'r blwch isod i esbonio eich rhesymau am apelio

[DS - Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno yn hwyrach na'r terfyn amser 28 diwrnod, rhaid i chi gwblhau Adran D hefyd i ofyn am estyniad i derfynau amser yr apêl.]

Adran D – Rheswm am gais hwyr

Defnyddiwch y blwch isod i esbonio pam na chafodd yr apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a nodwyd:

At ddefnydd y swyddfa yn unig:

Dyddiad cyflwyno i Lywydd y TP i'w ystyried:

Awdurdodi'r Cais:

Dyddiad Awdurdodi'r Cais:

Gwrthod y Cais:

Dyddiad Gwrthod y Cais:

Nodiadau Canllaw

Gofynnir i chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ofalus. Gall fod o gymorth i chi.

Geiriau sy'n cael eu defnyddio yn y ffurflen apêl

Cyngor – weithiau'n cael ei alw'n 'Awdurdod Bilio'. Dyma'r corff sy'n darparu gwasanaethau lleol ac yn casglu'r Dreth Gyngor i dalu amdanynt. Fe ddewch o hyd i enw'r Cyngor ar y bil Treth Gyngor neu hysbysiadau eraill oddi wrthynt.

Cyfeirnod Treth Gyngor – mae hwn yn helpu'r Cyngor i'ch adnabod chi a'ch cais. Fe ddewch o hyd i'r cyfeirnod hwn ar eich bil Treth Gyngor neu'r llythyr penderfynu gan y Cyngor.

Tribiwnlys Priso – mae Tribiwnlys Priso Cymru (TPC) yn gorff ag annibyniaeth farnwrol a sefydlwyd o dan y gyfraith i glywed a phenderfynu ar apelau yn erbyn Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio.

Mae TPC yn annibynnol ar y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n anfon biliau Treth Gyngor ac ardrethi, ac Asiantaeth y Swyddfa Briso (VOA) sy'n gosod bandiau Treth Gyngor a gwerthoedd ardrethol.

Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen apêl

Gofynnir i chi nodi'r math o apêl rydych chi'n dymuno ei gwneud ar y dudalen gyntaf. Mae'r blychau ar yr ochr yn dweud wrthyhych pa adrannau y mae'n rhaid i chi eu llenwi i wneud y math yma o apêl.

Adran A – Mae angen cwblhau'r adran hon ar gyfer pob math o apêl a dylid rhoi i'r Tribiwnlys enw'r person (yr apelydd) sy'n codi anghydfod am benderfyniad y Cyngor neu sy'n apelio hysbysiad cwblhau (a gyflwynwyd gan y Cyngor) neu hysbysiad cosb (a gyflwynwyd gan y Cyngor).

Mae angen i'r Tribiwnlys wybod cyfeiriad yr eiddo sy'n destun anghydfod ynglŷn â faint o Dreth Gyngor sy'n daladwy neu sy'n destun unrhyw apêl yn erbyn hysbysiad cwblhau neu hysbysiad cosb.

Dylech roi eich manylion gohebu i ni os ydych yn dymuno i'ch dogfennau apêl gael eu hanfon ymlaen i gyfeiriad gwahanol i gyfeiriad eiddo'r apêl. Hefyd, dylech ddweud wrthym os dymunwch i berson arall eich cynrychioli. Os oes gennych gynrychiolydd mae angen i chi roi eu henw a'u manylion cyswllt. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, gadewch yr adrannau hyn yn wag os gwelwch yn dda.

Adran B – Apelau Bilio Treth Gyngor

Gofynnir i chi ddefnyddio'r adran hon os ydych yn codi anghydfod am faint o dreth gyngor y mae'n rhaid i chi ei thalu. Fe all hyn godi oherwydd bod y Cyngor wedi gwrthod caniatáu eithriad ar yr eiddo, neu wedi gwrthod rhoi gostyngiad neu leihad ar y swm y gofynnir

amdano, neu achos bod y Cyngor wedi nodi'r person anghywir fel yr un sy'n atebol am dalu'r Dreth Gyngor ar yr eiddo.

Cyn i chi fedru apelio i'r Tribiwnlys, mae angen i chi fod wedi ysgrifennu at y Cyngor yn esbonio pam yr ydych yn anghytuno â faint o Dreth Gyngor sy'n cael ei chodi neu pam yr ydych yn anghytuno â'i benderfyniad i godi treth gyngor arnoch chi. Gofynnir i chi nodi'r dyddiad i chi ysgrifennu at y Cyngor yn y blwch perthnasol.

Dylai'r Cyngor fod wedi anfon ateb atoch o fewn dau fis. Gofynnir i chi nodi ar y ffurflen a yw'r Cyngor wedi eich ateb neu beidio.

Os ydynt wedi ateb, rhaid i chi wneud apêl o fewn dau fis i'w hateb. Nodwch ddyddiad eu hateb ar y ffurflen gan gynnwys copi o'u llythyr gyda'r ffurflen pan fyddwch yn ei hanfon atom.

Os nad yw'r Cyngor wedi eich ateb, gallwch apelio o hyd cyhyd â nad oes mwy na phedwar mis wedi mynd heibio ers i chi ysgrifennu atynt yn codi'r mater.

Mewn achosion lle rydych yn credu bod eich bil yn anghywir achos nad yw'r Cyngor wedi gosod gostyngiad yn gywir o dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i bersonau ar incwm isel a/neu rai budd-daliadau lles, gofynnir i chi nodi a ydych wedi gwneud apêl Budd-dal Tai hefyd ar yr un seiliau. Mae apelau Budd-dal Tai yn mynd i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (ac nid i'r Tribiwnlys Prasio). Os oes un, gall effeithio ar gynnydd eich apêl Treth Gyngor yma yn y Tribiwnlys Prasio. Os ydych wedi gwneud apêl Treth Gyngor **ac** apêl Budd-dal Tai i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, gofynnir i chi gynnwys copi o'r dogfennau rydych wedi eu hanfon at y tribiwnlys arall.

Yn rhan olaf yr adran hon, rhowch eich rhesymau llawn am apelio i'r Tribiwnlys os gwelwch yn dda. Os nad oes digon o le, gallwch atodi dalen ar wahân i roi manylion llawn eich apêl.

Adran C – Apêl yn erbyn Hysbysiad Cwblhau

Gall awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad cwblhau o ran eiddo sydd newydd ei godi neu wedi'i newid yn adeileddol. Pwrpas hysbysiad cwblhau yw hysbysu perchennog yr eiddo am y dyddiad pan fydd y Cyngor yn ystyried fod eiddo wedi'i gwblhau neu i gael ei drin fel pe bai wedi'i gwblhau at ddibenion codi Treth Gyngor neu Ardrethi Annomestig. Os yw'r eiddo heb ei feddiannu, mae hyn yn golygu bod modd gosod eithriad rhag y Dreth Gyngor neu Ardrethi Busnes o'r dyddiad hwn.

Os ydych yn ystyried nad oedd yr eiddo wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad a nodwyd gan y Cyngor neu na ellir disgwyl hynny yn rhesymol, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon a llenwi'r adran hon i apelio yn erbyn y dyddiad a nodir yn yr Hysbysiad Cwblhau. Rhaid gwneud unrhyw apêl i'r Tribiwnlys Prasio o fewn pedair wythnos i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad cwblhau a rhaid i chi gynnwys copi o'r hysbysiad cwblhau gyda'ch apêl.

Gofynnir i chi esbonio eich rhesymau am apelio yn y blwch a ddarperir. Os nad oes digon o le, gallwch atodi dalen ar wahân i roi manylion llawn eich apêl.

Dylid nodi bod awdurdodaeth y Tribiwnlys yn gyfyngedig i heriadau ynglŷn â'r dyddiad cwblhau ac na all ystyried unrhyw agweddau ehangach, er enghraifft, anghydfod ynglŷn â sut cafodd yr hysbysiad ei gyflwyno.

Adran CH – Apêl yn erbyn Hysbysiad Cosb a gyflwynwyd gan Awdurdod Bilio

Gall awdurdod bilio (Cyngor) gyflwyno hysbysiad cosb os yw'n gofyn am wybodaeth gennych ynglŷn â'ch atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac nad ydych yn ei darparu.

Gofynnir i chi gwblhau'r manylion y mae'r adran hon yn gofyn amdanynt ac anfon y ffurflen hon yn ôl gyda chopi o'r hysbysiad cosb o fewn 2 fis i'w dderbyn. Os yw'r Cyngor wedi eich dirwyo fwy nag unwaith, rhaid i chi wneud apêl ar wahân am bob dirwyo.

Gofynnir i chi esbonio eich rhesymau am apelio yn erbyn y gosb yn y blwch a ddarperir. Os nad oes digon o le, gallwch atodi dalen ar wahân i roi manylion llawn eich apêl.

Dylai eich rhesymau esbonio naill ai nad yw'r wybodaeth hon gennych, fod gennych esgus rhesymol am beidio â'i darparu erbyn y terfyn amser neu eich bod wedi ei darparu fel y gofynnwyd. Dylech anfon prawf eich bod wedi anfon yr wybodaeth os ydych yn dadlau eich bod wedi ei darparu.

Adran D – Rheswm am Gais Hwyr

Caiff apelau a wneir gyda'r holl fanylion angenrheidiol ac o fewn y terfyn amser priodol ar gyfer y math o apêl (gw. tudalen 1) eu cofrestru gan y Tribiwnlys wrth eu derbyn. Ni dderbynnir apelau a wneir ar ôl i'r terfyn amser perthnasol ddod i ben yn awtomatig. Os ydych yn gwneud apêl hwyr, rhaid i chi ddefnyddio'r adran hon i esbonio pam. Wedyn caiff y ffurflen apêl ei chyflwyno i Lywydd y TP. Os yw'r Llywydd yn derbyn fod y cais hwyr wedi codi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y ceisydd, bydd y Llywydd yn awdurdodi derbyn y cais allan o amser. Yna caiff tystysgrif yn awdurdodi cofrestru eich apêl ei chyflwyno. Os na dderbynnir y rheswm am y cais hwyr, rhoddwn wybod i chi eich bod wedi methu â chofrestru apêl. Mae penderfyniad y Llywydd yn derfynol.

DIOGELU DATA

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn rheolydd data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Yr ydym yn cadw gwybodaeth am resymau cyfreithiol, er enghraifft, er mwyn galluogi'r Tribiwnlys Prisio i wneud penderfyniadau am apelau. Mae'n ofynnol i ni gadw cofnodion o'r penderfyniadau hyn am gyfnod o chwe blynedd.

Pan dderbyniwn eich apêl, gall fod angen i ni gael hyd i wybodaeth amdani gan y Cyngor neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Bydd hyn yn ein helpu i ymdrin â'ch apêl cyn gynted ag y bo modd. Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni anfon copi o'ch apêl at y Cyngor neu'r VOA (yn achos apelau Hysbysiad Cosb) hefyd.

Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a gawn gennych chi, y Cyngor neu'r VOA mewn perthynas â'ch apêl chi.

Noder: Nid ydym yn dychwelyd unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu hanfon atom oni wneir cais penodol gennych ar ddechrau proses yr apêl. Caiff pob dogfen ei sganio, ei llarpio a'i gwaredu yn ddiogel, felly peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhoi manylion llawn y gyfraith. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan y TP:

www.tribiwnlysprisio.cymru

Os oes angen gwybodaeth bellach neu gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, gofynnir i chi gysylltu â Swyddfa'r TP - mae'r manylion isod.

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru